Llafur

Cymdeithas Hanes Pobl Cymru

The Welsh People's History Society

Cylchlythyr **Tymor yr Haf 2011**

ADRODDIAD Y CADEIRYDD
Martin Wright

Mae'n teimlo fel dim ond wythnosau yn ôl y cyfarfuom yn Nhonypandy ar gyfer ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol diwethaf pan, mewn realiti, mae blwyddyn arall yn mynd heibio'n gyflym. Mae'r rhai hynny ohonom sy'n gweithio ym myd addysg wedi gweld sesiwn academaidd arall yn dod a'n mynd, a charfan arall o fyfyrwyr yn symud ymlaen i gymryd eu safle mewn cymdeithas. Ond go brin y bo'r gymdeithas honno yn cynnig cynefin cyfforddus iddynt ar hyn o bryd. Yn sgil un o argyfyngau mwyaf a hanesyddol cyfalafiaeth, rydym yn dyst i ymgais - gan lywodraeth glymblaid amheus ei chyfreithlondeb - I'w ail-lunio yn unol â dyheadau ei haelodau cyfoethocaf.

Mae'r gwaethaf eto i ddod: toriadau llym i wasanaethau cyhoeddus, ymosodiad geiriol parhaus ar y rhai sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus, gwanhau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a'i breifateiddio'n raddol, system Addysg Uwch fwyfwy anghynhwysol, cael gwared â chefnogaeth ar gyfer y bregus gam bwyll bach, ac erlid yr aelodau gwanaf o gymdeithas; dim ond newydd ddechrau y mae hyn oll. I'r rhai hynny ohonom sy'n cofio'r 1980au, mae'n deimlad annifyr o gyfarwydd. Cymdeithas wedi'i gwahanu, yn frith o anafiadau dynol a thalent wedi'i wastraffu yw'r ddrychiolaeth sydd o'n Blaenau. I ni yng Nghymru, y gobaith yw y bydd Llywodraeth Cymru yn ein diogelu rhag y gwaethaf o'r llanastr. Dim ond amser a ddengys, ond fel cenedl a ddioddefodd yn anghymesur oherwydd ysglyfaethu'r 1980au a'r 1990au, ni allwn syllu ar ddymuniad ein rheolwyr cyfoethog i 'ddiwygio'r gwasanaethau cyhoeddus' ac 'ail-gydbwyso'r economi' heb amheuaeth ddofn, neu'n wir, heb ofn.

Mewn awyrgylch o'r fath, byddai'n rhwydd teimlo mai ond ymylol yw gwaith Llafur. Fodd bynnag, mae'r canfyddiad hwn yn hollol i'r gwrthwyneb. Yn wir, mae mwy pwysig nag erioed bod Llafur yn parhau i weithio i ddyfnhau a gwella ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o orffennol pobl gyffredin y genedl hon. Mae gwybodaeth o'r gorffennol yn gwasanaethu fel adnodd a chanllaw ar gyfer wynebu'r dyfodol - map a chwmpawd, lle rydym ar goll yn y presennol.

Y gobaith yw bod pob digwyddiad a chyhoeddiad Llafur, yn ategu ac yn ychwanegu gwerth i'r adnodd hwnnw, ac - i aralleirio geiriau Horace Haigh, glöwr o dde Cymru a fynychodd Goleg Harlech yn ystod Dirwasgiad Mawr y 1930au, - yn helpu 'i'n cyfarparu ar gyfer byw yn gadarnhaol'. Gellir dod o hyd i fanylion yn y cylchlythyr hwn, ynghylch digwyddiadau sydd wedi'u cynllunio ar gyfer tymor yr hydref a thymor y gaeaf. Mae croeso i bawb.

Hoffwn dynnu sylw aelodau yn arbennig, at y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a'r ysgol undydd, fydd yn cael eu cynnal ar Hydref 29ain yn y Deml Heddwch, Caerdydd. Y thema fydd Rhyfel a Chymdeithas yng Nghymru. Byddai'n anodd dod o hyd i thema fwy perthnasol ar gyfer y presennol. Pan ofynnwyd, ar derfyn 1899, beth fyddai'r her i ddynoliaeth yn y ganrif newydd, atebodd Keir Hardie 'militariaeth' heb oedi. Fe'i profwyd yn iawn, ond yr hyn sydd fwyaf pryderus yw y gallai'r un ateb fod wedi cael ei roi'r un mor gywir ym 1999. Dylai ein hysgol undydd ddarparu cyfle gwerthfawr i adlewyrchu ar ddatganiad proffwydol Hardie ond hefyd, dyfnhau ein gwybodaeth am berthynas ein cenedl gyda rhyfel, mewn cyfnod pan mae nifer fawr o'i meibion a'i merched yn darganfod eu hunain yng nghanol gwrthdaro unwaith eto.

I orffen, un o'r pynciau fydd yn cael eu trafod yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol nesaf fydd dyfodol ein cyfnodolyn. Sbardunodd cynnig gan olygyddion y cyfnodolyn i gyflwyno system o adolygu gan gyfoedion drafodaeth fywiog yng Nghynhadledd Gyffredinol Flynyddol y llynedd. O ganlyniad, penderfynwyd y dylid ymgynghori'n fwy eang ag aelodau cyn cytuno ar unrhyw benderfyniadau. Yn y cylchlythyr hwn, ceir papur manwl gan y golygyddion yn crynhoi'r cynigion. Gellir edrych arno hefyd ar ein gwefan, ac mae croeso cynnes i aelodau ymateb a lleisio eu barnau. Mae hwn yn fater pwysig, a Llafur *yw* ei aelodau. Mae'n bwysig felly, bod pob aelod yn lleisio eu barn, fel bod trafodaeth hollol wybodus yn cael ei chynnal yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol nesaf. Edrychaf ymlaen at gadeirio'r drafodaeth honno, a mwynhau'r cyfoeth o arbenigedd fydd ar gael yn ein digwyddiadau sydd i ddod.

NEWYDDION Y GYMDEITHAS

O ddathliadau pen-blwydd Ieuan Gwynedd Jones yn Aberystwyth, i ganu Dai Smith yn Llwynypia, mae hon wedi bod yn flwyddyn i aelodau Llafur i hel atgofion, myfyrio a dathlu. Rydym wedi bod yn ffodus i glywed amrywiaeth o siaradwyr nodedig a rhagorol yn rhannu cyfoeth eu hymchwil drwy gydol y flwyddyn. Fodd bynnag, roedd y cyfle i ddathlu cyfraniad enfawr Ieuan ym maes hanes Cymru gyda'i gyn myfyrwyr yn sicr yn uchafbwynt. Bydd manylion llawn o'n holl ddigwyddiadau yn dilyn. Dylid sôn hefyd, am y gynhadledd lwyddiannus iawn ar Ryfel Oer Cymru, a drefnwyd gan Ganolfan Cymru Fodern a Chyfoes ac a gefnogwyd gan Llafur. Yn y digwyddiad a gynhaliwyd ym Mhrifysgol Morgannwg, cafwyd cymysgedd o bapurau academaidd ac atgofion personol gan actifyddion a oedd ynghlwm wrth fudiadau heddwch Bydd rhifyn 2011 o'r cyfnodolyn yn rhifyn arbennig ar Ryfel Oer Cymru, a bydd yn cynnwys amrywiaeth o bapurau o'r diwrnod.

Bu aelodau Llafur yn rhan o'r gynulleidfa hefyd i nodi Trydedd Ddarlith Goffa Ursula Masson ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod nôl ym mis Mawrth. Angela John, Is-lywydd Llafur oedd y siaradwraig, yn defnyddio ymchwil o'i bywgraffiad diweddar ar Margaret Mackworth, Boneddiges Rhondda. Roedd y digwyddiad yn wych, ac roedd llawer yn bresennol; Iansiwyd rhifyn newydd o *Our Mothers' Land: Chapters in Welsh Women's History 1830-1939* yn y digwyddiad hefyd.

Eleni, ar **Awst 18fed**, bydd Llafur yn cefnogi Fforwm Drafod i nodi canmlwyddiant Streic a Therfysgoedd Llanelli ym 1911.

Ddydd Sadwrn, 24 Medi, bydd digwyddiad i **nodi pen-blwydd Llafur yn 40 oed,** yn cael ei gynnal yn Llyfrgell Glowyr De Cymru o 1-5yh.

Ddydd Sadwrn 29 Hydref, byddwn yn cynnal Ysgol Undydd; 'Rhyfel a Chymdeithas yng Nghymru'. Bydd y digwyddiad yn cael ei gynnal yn y Deml Heddwch, Caerdydd, Bydd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y gymdeithas yn cael ei gynnal ar ôl y digwyddiad.

Ar **12 Tachwedd**, bydd digwyddiad ynghylch Casgliad y Werin Cymru yn cael ei gynnal yn Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru.

Bwriedir cynnal Ysgol Undydd i ddathlu pen-blwydd Plaid Llafur Rhondda yn hwyrach eleni. Rhagor o fanylion i ddilyn.

Y flwyddyn nesaf, bydd dau ddigwyddiad yn cael eu cynnal ym Mangor. Yn ystod Tymor y Gwanwyn, bydd ysgol undydd yn cael ei chynnal i archwilio gwaith sosialwyr iaith Gymraeg. O 8-10 Chwefror, bydd cynhadledd yn cael ei chynnal i ddathlu cyfraniad Duncan Tanner i hanes llafur.

Bydd gan aelodau Llafur ddiddordeb hefyd, mewn clywed am 14edd Cynhadledd Flynyddol a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2011 Menywod Cymru - – 'Fe Orchfygwn Ni', fydd yn cael ei gynnal ddydd Sadwrn 15fed - ddydd Sul 16eg Hydref yn y Galeri, Caernarfon.

Edrychwn ymlaen at eich gweld yn ein digwyddiadau eleni. Os hoffech ragor o fanylion ynghylch digwyddiadau sy'n berthnasol i Llafur a sefydliadau eraill a derbyn diweddariadau rheolaidd, ewch i'n gwefan www.llafur.org neu cysylltwch â Siân Williams (s.f.williams@swansea.ac.uk).

DIGWYDDIADAU DIWEDDAR LLAFUR



Dathlu Pen-blwydd Ieuan Gwynedd Jones yn 90 oed.
Ysgol Undydd ar Gymru yn Oes Fictoria
Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
Dydd Sadwrn 19 Mehefin 2010
Adroddiad gan Lowri Ann Rees

Ddydd Sadwrn 19 Mehefin, trefnwyd ysgol undydd gan Llafur ar y cyd â Chymdeithas Hanesyddol Ceredigion, i ddathlu pen-blwydd yr hanesydd enwog, yr Athro Ieuan Gwynedd Jones yn 90 oed. Cynhaliwyd y dathliadau yn Drwm, yr awditoriwm aml-gyfryngol hynod yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth; thema'r dydd oedd Cymru yn Oes Fictoria, a ddewiswyd i gydnabod cyfraniad enfawr Ieuan at y maes hwn o hanesyddiaeth.

Cychwynnwyd yr ysgol undydd gyda'r Athro Geraint Jenkins, a estynnodd groeso cynnes i bawb, yn enwedig i'r siaradwr gwadd, sef Ieuan a'i deulu. Y siaradwr cyntaf i gyflwyno oedd Dr Ryland Wallace; roedd ei bapur yn canolbwyntio ar ryddfreinio menywod yng Nghymru yn Oes Fictoria. Cadeiriwyd hyn gan yr Athro Angela John. Ystyriwyd canfyddiadau am rolau traddodiadol dynion a menywod mewn cymdeithas, a sut oedd dealltwriaeth pobl yn Oes Fictoria ynghylch ffisioleg ag anatomeg, yn ystyried menywod fel y rhyw wanaf, oedd yn cyfyngu eu rhyddid o'i gymharu â dynion. Roedd Ryland yn cynrychioli agwedd Gymreig mudiad y swffragetiaid, ac roedd croesgad John Gibson o ddiddordeb lleol arbennig, Roedd yn cefnogi'r achos yn gryf, ac eisteddodd hyd yn oed ar rai o'r un pwyllgorau â'r Parkhursts dylanwadol.

Ar ôl egwyl coffi yn ystod y bore, cawsom fwynhau papur Dr Russell Davies o'r enw *'The Happiness, Humour and Sexuality of the Welsh in the Age of*

Victoria', a gafodd ei gyflwyno a'i gadeirio (gan Dr Erfyn White) yn Gymraeg, gyda darpariaeth cyfieithu ar y pryd. Er na chanfyddir Cymru yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn y termau uchod yn draddodiadol, gyda gwrthateb enwog y frenhines Fictoria 'ni welaf i ddim byd yn ddigrif' yn crynhoi hinsawdd y cyfnod, llwyddodd Russell i'n darbwyllo fel arall, gan ddangos bod yno hiwmor go iawn, ac yn wir llawer o sgandal, ymysg y Cymry. Llwyddodd hyd yn oed yr hen jôcs am Oes Fictoria a gafodd eu rhannu gan Russell i wneud llawer i chwerthin, yn ystod papur difyr, yn llawn hanesion ac enghreifftiau doniol.

Yn dilyn yr ail bapur hwn, cafwyd gwerthfawrogiad o fywyd a gyrfa academaidd Ieuan gan Geraint Jenkins, un o'r nifer o'i fyfyrwyr oedd yn bresennol, a chadeiriwyd y sesiwn gan Richard Suggett. Ynghyd â chyflwyniad gweledol gwych, oedd yn cynnwys llawer o luniau personol a gafodd eu casglu drwy gymorth mab Ieuan, roedd yn fraint clywed sampl o recordiad o Ieuan yn darlithio mor glir a gyda'r fath frwdfrydedd ar effaith etholiad 1868 ar gymdeithas Cymru.

Ar ôl cael seibiant i gael cinio, cychwynnwyd sesiwn y prynhawn gyda thrafodaeth Dr Paul Leary am Fyddin yr Iachawdwriaeth yn ystod yr 1870au a'r 1880au, a sut wnaeth eu brand milwrol o grefydd stryd ennyn cwestiynau ynghylch y man addoli crefyddol priodol. Yn ddiddorol, ffynnai'r blynyddoedd cynnar hyn o grefydd stryd arbrofol ym meysydd glo'r diwygwyr, o'i gymharu â gweddill Cymru. Ystyriodd Paul rôl emosiynol cerddoriaeth, yn ychwanegol i gyfraniad menywod, lle'r oedd aelodau benywaidd o Fyddin yr Iachawdwriaeth yn gallu dod yn gapteiniaid a thrwy'r sefydliad, yn ennill yr awdurdod a'r parch gan y cyhoedd nad oeddynt yn ei gael mewn cymdeithas. Gwnaethpwyd cysylltiadau gyda phapur cynharach Ryland ar ryddfreinio menywod ar sail wleidyddol.

Yn ystod te'r prynhawn, rhoddwyd anrheg a theisen pen-blwydd i Ieuan, a gafodd ei thorri ar ôl i bawb ddod at ei gilydd i ganu 'Pen-blwydd Hapus/Happy Birthday'. Cyflwyniad bywiog gan Richard Ireland oedd papur olaf y dydd, o'r enw *'White Gloves and Blue Books: Community and Crime in Nineteenth-Century Wales'*. Cyfaddefodd Richard nad oedd wedi cael ei ddysgu'n ffurfiol gan Ieuan, yn wahanol i siaradwyr eraill y dydd, ond er hynny, roedd yn dal i deimlo dyled fawr iddo am y mewnwelediad i Gymru yn y bedwaredd ganrif ar hugain a gafodd, drwy astudio llawer o'i waith. Eglurodd Richard, drwy ganolbwyntio'n arbennig ar ardaloedd gwledig yn ne ddwyrain Cymru, pa mor annibynadwy oedd ystadegau troseddu swyddogol. Unwaith eto, fel y soniodd Russell yn ei bapur, yn draddodiadol, roedd y Cymry'n cael eu gweld fel pobl foesol, oedd yn parchu'r gyfraith, a disgrifiwyd y wlad fel *Gwlad y Menyg Gwynion (Land of White Gloves)*; ond, fel yr eglurodd Richard, nid dyma'r achos bob amser. Anaml iawn oedd troseddau moesol fel celu genedigaethau a bwystfileiddiwch yn mynd gerbron llys, lle byddai'r sawl oedd yn euog yn mynd o flaen barnwr Saesneg ei iaith, gan y byddant yn adlewyrchu'n ddrwg ar y gymuned. Felly, defnyddiwyd dulliau o gyfiawnder cymunedol i gosbi troseddwyr; un o'r rhai mwyaf eithafol oedd traddodiad y *ceffyl pren*. Diolch i frwdfrydedd Richard am ei waith ymchwil a'i gyflwyniad dengar, daeth yr ysgol ddydd i ben ar nodyn uchel.

Daethpwyd â'r trafodion i ben gan Martin Wright, Cadeirydd Llafur, a roddodd wahoddiad i Ieuan i ddweud gair neu ddau. Estynnodd Ieuan ddiolch i bawb o waelod ei galon, gan ddatgan y byddai'n cofio'r diwrnod hwn am byth, a'i fod wedi mwynhau gwrando ar ei gyn myfyrwyr yn cyflwyno eu hymchwil. Gan dynnu sylw at y swm enfawr o wybodaeth oedd wedi cael ei gasglu ar y diwrnod, roedd Ieuan yn hyderus y byddai'r wybodaeth yn parhau i dyfu yn y blynyddoedd i ddod. Mynegodd Martin ei ddiolch i drefnwyr y dydd, sef Lona Masson ac Eirionedd Baskerville o Gymdeithas Hanesyddol Ceredigion, a Siân Williams o Llafur, yn ogystal â'r siaradwyr, y rhai hynny a gadeiriodd y sesiynau, staff Llyfrgell Genedlaethol Cymru, pawb oedd wedi mynychu, ac yn bwysicach oll, Ieuan, am ei gyfraniad gwerthfawr o ran cyfoethogi maes hanes Cymru.

'150 mlynedd o'r cymunedau Cydweithredol yn Ne Cymru'
Neuadd Glowyr Cwmdâr
3ydd Gorffennaf 2010
Adroddiad gan M. Eggerton

I ddathlu 150 mlynedd ers sefydlu'r cymunedau Cydweithredol cyntaf yng Nghymru, cyfarfu ei aelodau yn Neuadd y Glowyr Cwmdâr ar 3ydd Gorffennaf 2010. Yn y digwyddiad pleserus hwn, cafodd aelodau'r fraint o wrando ar bapurau rhagorol gan Chris Williams, Alun Burge, Nicole Robertson a Len Arthur. Roedd pynciau'n amrywio o'r cymunedau Cydweithredol cyntaf yng Nghymru, i ddyfodol posibl y mudiad.

Ar ôl derbyn croeso brwd, canolbwyntiodd papur Chris Williams *'Owenite Communities in Wales'* ar gred Robert Owen y gallai'r byd presennol gael ei newid i fod yn fyd moesol newydd. Cyflwynodd Chris dair astudiaeth achos hynod ddiddorol am gymunedau Oweniaid. Gyda lluniau trawiadol i ddangos pob achos, cawsom ein tywys drwy gymunedau'r Coed Duon, Pant Glas a Garn Llwyd; ystyriwyd sut oedd pob un yn dehongli ac yn byw ffordd o fyw Owen. Dadleuodd Chris fod y Coed Duon yn cynrychioli'r enghraifft leiaf

Owenaidd o blith y tair a gyflwynodd, gan fod y dref yn rhy geidwadol ac yn brin o radicaliaeth. Fodd bynnag, roedd Pant Glas yn ymgais i adeiladu cymuned mewn paradwys o arwahanrwydd a fethodd yn amaethyddol, ac yn logistaidd hefyd, yn y pen draw, gan na wnaeth y nifer o aelodau fyth gyrraedd lefelau cynaliadwy. Ac i orffen, dywedodd Chris y dylai Garn Llwyd gael ei weld yn wahanol, gan mai cyfnod pontio ydoedd rhwng syniadau Oweniaid a rhai Cydweithredol. Yn gyffredinol, awgrymodd Chris ei bod yn werth astudio'r cymunedau hyn, gan eu bod yn symboleiddio cyfnod cynhanes y cymunedau cydweithredol yng Nghymru.

Cyflwynwyd y papur nesaf gan Alun Burge, o'r enw *'The beating heart of Co-operation in south Wales snapshots from Cwmdare and Aberdare'.* Yng ngeiriau Alun ei hun, darparodd 'grynodeb cyflym o 130 mlynedd' o hanes y Mudiad Cydweithredol yn Ne Cymru, gan ystyried y cyd-destun hanesyddol ar gyfer ei lwyddiant a'i ddirywiad yn y pen draw yn ail hanner yr ugeinfed ganrif. Ystyriwyd nodweddion gwahanol cymunedau Cydweithredol Cwmdâr ac Aberdâr gan Alun drwy gydol y papur, a thalodd sylw at eu hamcanion lleol a'u huchelgeisiau ehangach. Dim ond ar ôl 1859 y sefydlwyd y cymunedau Cydweithredol hyn, a mwynhaont lwyddiant ariannol erbyn yr 1890au, diolch i sefydlogrwydd ac ansawdd yr arweinyddiaeth briodol. Yn wir, amlygodd Alun sut yr aeth arweinwyr cymunedau Cydweithredol Cwmdâr ac Aberdâr ymlaen i ddod yn enwog ar lefel genedlaethol. Ymchwiliodd Alun effaith amryw o streiciau a chloi gweithwyr allan ar y cymunedau Cydweithredol, yn enwedig ar ôl 1900. Yn wir, awgrymodd Alun fod digwyddiadau 1926 wedi torri asgwrn cefn y cymunedau Cydweithredol gan ragweld eu dirywiad, nes iddynt gael eu disgrifio fel 'ar ôl yr oes' erbyn yr 1960au. Roedd papur Alun yn llawn o atgofion personol hyfryd fan hyn a fan draw o'i siopau Co-op lleol a'r atgofion lu yn eu cylch. Ar ô cinio hyfryd a drefnwyd gan Neuadd Glowyr Cwmdâr, y dylid estyn diolch arbennig iddynt, ymgynullodd y gynulleidfa unwaith eto i glywed cyflwyniad Nicole Robertson ar *'The Co-operative Movement and the Community.' A case study of three Co-operative societies in Wales during the first half of the twentieth century.'* Yn ystod ei phapur, edrychodd Nicole ar gwmnïau Cydweithredol yn Ton, Ewloe a Queensferry, ac ar sut yr oedd cwmnïau'n darparu gwasanaethu adwerthu, y 'rhandal', â'r cymorth ariannol a roddwyd ganddynt o'r neilltu ar gyfer aelodau a'r gymuned leol. Dechreuodd Nicole drwy drafod cymeriad arloesol sector adwerthol y Co-op drwy hunanwasanaeth, ond nododd na ellid cynnal y camau breision hyn ac fe gollodd siopau'r Co-op dir i adwerthwyr eraill. Dadleuodd Nicole fod rôl y cymdeithasau fel sbardunwyr darbodaeth yn bwysig iawn gan iddynt alluogi'r dosbarth gweithiol i gynilo ar gyfer pryniannau moeth ynghyd â'r pethau angenrheidiol yn y cyfnodau mwy anodd. Roedd hyn yn sicr yn wir yn Ewloe a Ton, lle'r oedd y 'rhandal' yn llawer uwch. Canolbwyntiodd y papur ar sut yr oedd cwmnïau wedi gorfod newid i weddu tueddiadau economaidd ehangach, lle gwelwyd defnydd eang o gredyd a hurbwrcasu y gellir ei ganfod yn hanfodol groes i egwyddor sefydlol y mudiad Cydweithredol. Yna, gorffennodd Nicole drwy edrych ar y ffordd yr oedd cwmnïau Cydweithredol yn rhoi arian yn aml i elusennau lleol a chenedlaethol, a sut y tyfodd hyn dros amser. Arweiniodd yn hyfryd iawn, at bapur Len Arthur ynghylch dyfodol posibl y cymunedau Cydweithredol.

Yn ei bapur *'Co-operatives, left or right into the future',* edrychodd Len ar natur newidiol y gymdeithas, gyda 12.9 miliwn o aelodau a 237,000 o weithwyr yn y DU. Disgrifiodd y gymdeithas hefyd fel mudiad cymdeithasol a allai weithredu i sbarduno diwygiad neu chwyldro; un enghraifft o hyn oedd gwaith Glofa'r Tŵr nes iddo gau, ac un arall oedd y safiad Masnach Deg. Daeth Len â'i gyflwyniad i ben drwy ystyried syniadau Trotsky ac Engels, oedd yn gweld y cwmnïau cydweithredol fel mudiadau trawsnewidiol cyn geni'r iwtopiâu gweithiol.

Wrth i'r dydd ddod i ben, roedd yn amlwg bod pen-blwydd y cymunedau Cydweithredol yn 150 mlwydd oed wedi cael ei ddathlu drwy ystyried genedigaeth cymdeithasau o'r fath ond hefyd, drwy agor trafodaeth a dadl ynghylch eu rôl yn yr unfed ganrif ar hugain.

Os hoffech dderbyn diweddariadau rheolaidd a chael rhagor o wybodaeth, gwnewch yn siŵr eich bod yn ymweld â'n gwefan www.llafur.org

Tonypandy – 100 mlynedd ymlaen.
Coleg Morgannwg, Llwynypia
Dydd Sadwrn 30ain Hydref 2010
Adroddiad gan Matthew

Aeth cynulleidfa fawr ar y daith i'r awditoriwm yng Ngholeg Morgannwg i ddathlu ac ailasesu effaith y digwyddiadau ar Donypandy 100 mlynedd yn ôl. Fe'n croesawyd gan Leighton Andrews AC, a gychwynnodd drwy osod digwyddiadau 1910 yng nghyd-destun ehangach hanes gwleidyddol Cymru a'i thraddodiad o 'ddinasyddiaeth weithgar'.

Cafwyd cychwyn annisgwyl ond pleserus gan Dai Smith, a gychwynnodd ei bapur drwy ganu *'All the nice girls like a striker'.* Yn ei bapur, *'Tonypandy 1910: Breaking All the Rules',* ystyriodd Dai gysylltiadau ei hun â Thonypandy ond hefyd, sut mae hanes 1910 wedi cael ei ail-werthuso ers yr 1970au. Yn hyn o beth, cynigiodd Dai y gellir olrhain achosion 1910 i atchweliad awdurdod cyn y flwyddyn honno, a dim ond

drwy ‘dorri’r holl reolau’ y mae haneswyr yn gallu gwybod yr hyn a ddigwyddodd go iawn tu ôl i ddigwyddiadau mawr fel y rhai hynny a welwyd yn Nhonypandy.

Yn ein hail bapur, a ddarparwyd gan Jane Aaron, *‘Fictionalizing Tonypandy: The Riots in Literature’,* cafwyd golwg diddorol ar sut mae Terfysgoedd Tonypandy wedi cael eu hadlewyrchu mewn llenyddiaeth boblogaidd drwy gydol y ganrif ddiwethaf. Edrychodd Jane ar chwe nofel, oedd yn amrywio o lyfrau rhamantaidd i rai realistig gymdeithasol ac ym mhob achos, cafwyd cip o farn yr awduron am y terfysgoedd a’r bobl a gymerodd ran. Er enghraifft, ystyriodd Jane sut yr effeithiwyd ar ran Jack Jones yn y terfysgoedd oherwydd ei fod yn rhywun o’r tu allan, sut yr ysbrydolwyd Lewis Jones gan Tonypandy, ynghyd â ffactorau eraill, i ddod yn nofelydd sy’n trin a thrafod digwyddiadau hanesyddol. I orffen, edrychodd Jane ar weithiau Alexander Cordell a Catrin Collier, a sut y gall digwyddiadau fel Terfysgoedd Tonypandy gael eu defnyddio fel cefnlenni ar gyfer nofeleiddio.

Cyn i ni dorri am ginio, edrychodd papur Chris Williams, *‘‘I depict a riot’: the Cambrian Combine dispute in the cartoons of J. M. Staniforth’,* ar y ffordd y gwnaeth arsyllwyr o’r tu allan ddehongli sefyllfa’r glowyr ar gychwyn y ganrif ddiwethaf. Mae Chris yn dadlau y dangosodd gwaith y cartwnydd Staniforth yn y *Western Mail* ddyn nad oedd yn sympathetig i achos y sosialwyr ond yn hytrach, un oedd yn cydymdeimlo ag anghenion ‘glowyr go iawn’, a oedd, yn ei farn ef, yn naïf a diniwed. Gorffennodd Chris drwy ddweud na ddylai syniadau Staniforth gael eu gwrthod mor rhwydd; nid rhyw gartwnydd bach di-nod oedd hwn, gan iddo barhau yn y grefft honno am 30 mlynedd; mae’n rhaid bod ei farnau wedi taro nodyn gyda’i ddarllenwyr.

Yn dilyn egwyl hir dros ginio, Louise Miskell oedd ein siaradwraig olaf, ac enw ei phapur oedd *‘Beyond Tonypandy: the other face of the “Coal War” of 1910’.* Edrychodd Louise yn ôl ar ‘Streic y Blociau’ yng nglofeydd Powell-duffryn yn Aberdâr, a awgrymwyd ganddi hi, oedd wedi cael eu hanghofio oherwydd Terfysgoedd Tonypandy. Ei dadl hi oedd y gallai’r streiciau hyn gael eu hystyried ar wahân o streiciau Tonypandy, er eu bod yn rhan o Ryfel y Glo o hyd, gan y cychwynnwyd y rhain gyda phleidlais o ganlyniad i newidiadau hirdymor mewn tâl ac amodau. Yn rhan olaf y papur, canolbwyntiwyd ar arweinydd y streic, sef C.B.Stanton, dyn caled oedd yn cael ei weld gan ei gyfoedion fel ffigwr radicalaidd a wnaeth wedyn, meddai Louise, fynd ymlaen i fod yn wleidydd adain dde jingoistaidd a drodd yn erbyn glowyr de Cymru. Gorffennodd Louise trwy gydnabod etifeddiaeth fwy parhaol anghydfod Terfysgoedd Tonypandy (y Cambrian Combine), ond ychwanegodd na ddylid diystyru gweithrediadau eraill yn ystod Rhyfel y Glo.

Daethpwyd â’r diwrnod i ben gan Joe England, a ddywedodd bod Tonypandy a’r digwyddiadau oedd wedi cael eu trafod drwy gydol y dydd yn profi ei fod yn well gwneud rhywbeth a methu, yn hytrach na pheidio â gwneud dim byd o gwbl, pan gyfyd anghyfiawnder. Cytunwyd fod y diwrnod wedi bod yn llwyddiant aruthrol, ac yn addas iawn i’r digwyddiad canmlwyddiant.

Newidiadau Arfaethedig i’r Cyfnodolyn

Fel golygyddion, hoffem amlinellu rhywfaint o newidiadau arfaethedig i’r cyfnodolyn, i’w trafod yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol nesaf. Rydym yn credu, am sawl rheswm, bod angen newid rhai trefniadau sy’n ymwneud â’r cyfnodolyn, i ganiatáu iddo gwrdd â rhai o’r heriau sy’n ei wynebu ar hyn o bryd.

Mae mwyafrif helaeth o’r erthyglau sy’n cael eu cyhoeddi yn y cyfnodolyn yn cael ei hanfon atom gan haneswyr academaidd, a dyma fu’r achos ers rhifyn cyntaf y cyfnodolyn ym 1972. Mae’r golygyddion wedi sylwebu erioed ar y pethau sy’n cael eu cyflwyno, a rhoi cynigion ynghylch sut y gallant gael eu gwneud yn fwy addas i’w cyhoeddi. Rydym wedi sylwi yn ystod y blynyddoedd diwethaf, fod nifer gynyddol o awduron wedi gofyn i ni ganfod canolwyr i sylwebu ar eu cyflwyniadau; mae canolwyr yn sicr wedi cael eu defnyddio o dro i dro yn y gorffennol ac wedi bod yn ddefnyddiol i’r awduron a’r golygyddion. Yn fwyfwy, rydym wedi sylweddoli ar sawl achos lle mae cyfranwyr posibl wedi penderfynu peidio â chyflwyno'u gwaith i'r cyfnodolyn gan iddynt gael eu cynghori i osod eu gwaith mewn 'cyfnodolion wedi'u canoli’. Mae'r ddwy sefyllfa hyn wedi datblygu o ganlyniad i’r asesiadau rheolaidd o ymchwil academaidd (yr RAE a'r REF) sydd wedi datblygu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac sy'n golygu bod yn rhaid i waith a gyflwynir ar gyfer yr asesiadau hyn gael ei adolygu gan gyfoedion, cyn cael eu cyhoeddi. O ganlyniadau, nid yw’r rhai hynny sy’n darllen y cyfnodolyn wedi gweld effeithiau llawn ffrwythau llafur yr ymchwilwyr ifanc sy’n gweithio mewn meysydd newydd, tra bod haneswyr ifainc eu hun wedi talu’r pris o ran eu dyfodol o ganlyniad i gyhoeddi yn *Llafur*.

Er mwyn cyfeirio at y sefyllfa hon, a sicrhau bod *Llafur* yn parhau'r un mor berthnasol yn y dyfodol ag y mae wedi bod yn y gorffennol, rydym yn cynnig ei fod yn dod yn gyfnodolyn wedi’i ganoli. Byddai hyn yn golygu creu Bwrdd Golygyddol o arbenigwyr cydnabyddedig ym maes hanes pobl, a fyddai’n darparu cymorth a chanllawiau i olygyddion. Yn ychwanegol, byddai angen

dod o hyd i ganolwr ar gyfer popeth fyddai'n cael ei gyflwyno, a fyddai'n darllen ac yn sylwebu ar y gwaith a gyflwynwyd. Byddai sylwadau o'r fath yn cael eu defnyddio fel rhyw fath o adborth i'r awduron, a chynorthwyo'r golygyddion yn eu gwaith gyda'r awduron. Rydym yn credu y byddai newidiadau o'r fath yn gwella'r anawsterau sy'n cael eu hwynebu gan haneswyr ifanc, ac yn cynorthwyo i ddiogelu dyfodol mwy hirdymor *Llafur* fel y lle gorau i gyhoeddi'r ymchwil diweddaraf a'r ymchwil gorau un ar hanes Cymru.

Nid yw'r newidiadau arfaethedig hyn yn golygu na fydd y cyfnodolyn bellach yn agored i haneswyr anacademaidd neu 'amatur' a allai fel arall, gael eu digalonni drwy gyflwyno system o'r fath. I'r gwrthwyneb, bydd y cyfnodolyn yn parhau i chwilio am waith a chyhoeddi gwaith gan unigolion o'r fath, fel rhan o'i ymrwymiad parhaus i ddatblygu hanes pobl Cymru. Byddem yn chwilio am aelodau o'r bwrdd golygyddol sydd yr un mor ymrwymedig i natur gynhwysol y cyfnodolyn ag y mae'r golygyddion eu hunain. Byddai canolwyr yn cael eu gwneud yn ymwybodol o natur gynhwysol y cyfnodolyn a'i rôl fel llwyfan ar gyfer gwaith yr amrywiaeth ehangaf posibl o awduron; byddai'r golygyddion yn parhau i weithio i sicrhau na fyddai'r newidiadau arfaethedig yn cael effaith ar allu neu duedd awduron o'r fath i anfon gwaith atom ni.

Paul O'Leary Steven Thompson Stephanie Ward

Bydd y pwnc hwn yn cael ei drafod yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar 29 Hydref 2011. Byddem yn croesawu eich barnau cyn y cyfarfod. Anfonwch eich sylwadau i'r Ysgrifenyddes, Siân Williams yn Llyfrgell Glowyr De Cymru, Prifysgol Abertawe, Campws Hendrefoelan, Heol Gŵyr, Abertawe SA2 7NB Ffôn: 01792 518693 E-bost: s.f.williams@swansea.ac.uk

ADRAN LYFRAU



Ewart Smith, *Upper Rhymney Valley Through Time* (Stroud, 2010), 96pp, £14.99.

Un o gyfres o lyfrau lluniau hanes lleol gan Amberley Publishing, o'r enw *Through Time* yw hwn. Yn y bôn, cyfres o luniau 'pryd hynny a nawr' ydyw, sy'n dangos y newidiadau sydd wedi digwydd dros amser. Yn anffodus, nid oes dyddiad ar y lluniau 'pryd hynny' ac yn amlwg, maent yn dod o gyfnodau gwahanol, ac felly gwelir aneglurder sydd wedi'i baru â natur brin yr esboniad. Yr hyn sy'n cael ei ddangos yn glir yw diflaniad pyllau glo, rheilffyrdd, capeli, sefydliadau gweithwyr a siopau ac yn eu lle, mae ceir parciau, llynnoedd, ceir a ffyrdd, cartrefi gofal ac archfarchnadoedd. Bellach mae strydoedd a oedd unwaith yn llawn pobl yn feysydd parcio. Mae cyfalafiaeth defnyddwyr wedi gwella bywyd yn ddramatig i unigolion yn y Parth Du gynt, ond mae'r cyfleoedd am fywyd cymunedol wedi crebachu. Bydd aelodau Llafur yn ymwybodol o hynny heb orfod cyfeirio at y lluniau yn y llyfr hwn, sydd mewn gwirionedd, yn ymarfer mewn hiraeth i'r rhai sy'n gyfarwydd â'r gymdogaeth. Mae'r lluniau ar dudalennau 32 a 51, yn dangos sut mae safleoedd pyllau glo Groesfaen a Britannia wedi cael eu trawsnewid yn llwyr. Yn ecsentrig, nid yw'n cynnwys lluniau o Rymni, ac mae'n anodd cael hyd i le mwy 'uchaf' yn ddaearyddol na hwn. *Joe England*

Mae pob barn o fewn y cylchlythyr hwn yn rhai cyfranwyr unigol, ac nid ydynt o reidrwydd yn adlewyrchu barnau Llafur.

Os hoffech gyfrannu adolygiad o lyfr neu erthygl i'r cylchlythyr, cysylltwch â
Matthew Eggerton (newsletter@llafur.org)